# CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL
## Cadeirydd: Gethin Pyrs

Nos Lun Medi 5ed 2022 am 7.30 y.h.

## Cofnodion - (102)

1. **Ymddiheuriadau**:
2. **Presennol**: Cyng. Gari B Jones, Gerallt Jones, Gethin Pyrs, Edmund Rees, Cyng. Sirol Gwennol Ellis ac Enid Williams Clerc.
3. **Còd Ymddygiad**: Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Mehefin:** derbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir gan GBJ gydag **ER** yn eilio.
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
   - 5.1. Penderfynwyd cysylltu gyda'r Cwmni Yswiriant a gofyn i ychwanegu'r tri cherflun pren sy yn y Parc Picnic a gweld os bydd tâl ychwanegol i'r polisi.
   - 5.2. Eglurodd y Cynghorydd Sirol bydd holiadur yn cael ei yrru allan i bob tŷ o fewn Plwyf Pentrefoelas er mwyn cael barn y trigolion ar gynlluniau yn ymwneud a Sgubor Rin a'r tirwedd gyfagos.
   - 5.3. Penderfynwyd gadael Cais Clwb Gofal Ysgol Pentrefoelas tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.
6. **Gohebiaeth:**
   - 6.1. CBSC – wedi derbyn yr 2ail daliad o'r Presept £1533.00
   - 6.2. 'The Circuit' - cafwyd wybod bod y Diffib wedi cael Pads a Batteries newydd, hun wedi cael ei gofnodi ar y 24ain Awst 2022. Cwblhawyd y gwaith gan Tomos Hughes ar ran Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar gwaith yn wirfoddol. Diolchwyd iddynt am hun.
7. **Ffurflen Monitro:**
   Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn
8. **Mantolen Banc:**
   Edrychwyd dros y fantolen, hyd yma mae popeth mewn trefn.
9. **Talu Anfonebau:**
   - 9.1. CBSC – Sgip Gymunedol cynigiodd - GBJ gydag ER yn eilio talu'r anfoneb o **£240.00** + TAW £48.00 = **£288.00** gyda siec rhif **100371** (S137)
   - 9.2. Meithrinfa Blodau Betws y Coed – cynigiodd ER gyda GJ yn eilio talu'r anfoneb o **£49.00** gyda siec rhif **100372** (S19)
   - 9.3. Cynigiodd ER gyda GBJ yn eilio talu costau'r clerc am 4 mis o Ebrill i Orffennaf sef **£116.77** gyda siec rhif **100373** (S150)
10. **Gair gan y Cyng. Sirol Gwennol Ellis** – dywedodd fod y Sgip yng Ngherrig ar y dydd Sadwrn cyntaf o bob mis a bod angen archebu slot o flaen llaw**,**
11. **Unrhyw fater arall:**
    - 11. 1. Bydd y Sgip Gymunedol ar y Maes Parcio dydd Mawrth Tachwedd 15fed 2022.
    - 11.2. Angen ail baentio'r llinellau melyn dwbl i fynnu heibio Gwesty'r Foelas ar ôl tarmacio. Y contractwyr wedi rhoi dyddiad o 13eg Fedi i gwblhau'r gwaith.
    - 11.3. Coeden yn tyfu allan i'r A5 wrth Llwyn Onn yn achosi problem gweld trafnidiaeth yn dod o gyfeiriad Cerrig.
    - 11.4. Tyfiant yn rhwystro trafnidiaeth rhag gweld pan yn ymuno ar A5 yn Groesffordd Nant.
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf Hydref 3ydd 2022** (i'w gadarnhau**)**

Arwyddwyd ______________________________ Dyddiad______________________

Cadeirydd